*This report is also available in English* **Eitem Agenda 19**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Hydref 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Dawn Docx, Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Natalie Lloyd Jones, Swyddog Iaith Gymraeg** |
| Pwnc | **Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg 2024/25** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 I gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth yr Aelodau, Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg ar gyfer 2024/25 mewn perthynas â'r canlynol;

- Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 155,161,167, sy'n manylu bod yn rhaid i'r Awdurdod lunio adroddiad monitro bob blwyddyn ariannol.

**CRYNODEB GWIETHREDOL**

2 Mae'r Adroddiad atodol yn amlinellu cydymffurfiaeth y Gwasanaeth â Safonau'r Gymraeg dros y flwyddyn 2024/25.

3 Mae'r Adroddiad yn tynnu sylw at sut rydym wedi monitro, hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Adroddiad hefyd yn rhoi gwybodaeth am ddatblygu'r Gymraeg o fewn y Gwasanaeth yn ogystal â'r cyfleoedd sydd wedi'u nodi i'w gwella yn y dyfodol.

**ARGYMHELLIAD**

4 Bod yr aelodau:

i) Yn cymeradwyo Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2024/25 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod; a

ii) nodi bwriad y Gwasanaeth i roi cyhoeddusrwydd i'r ddogfen fel y nodir yn Safonau 155,161,167. Bydd y cyhoeddiad ar wefan y Gwasanaeth a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol (sef Facebook ac Instagram).

**CEFNDIR**

5 Ers 30 Mawrth 2017, mae'n ofynnol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n cael eu rheoleiddio gan Gomisiynydd y Gymraeg ac a ddisodlodd y system flaenorol o gynlluniau iaith Gymraeg. Rhaid i'r Gwasanaeth lunio adroddiad blynyddol sy'n ymdrin â'r ffordd y mae wedi cydymffurfio â'r safonau.

**GWYBODAETH**

6 Mae'r Gymraeg yn rhan ganolog i fywyd llawer ohonom sy’n gweithio i’r Gwasanaeth ac mae ymdeimlad o falchder yn ein iaith yn weledol. Mae’n ran annatod o'n gwerthoedd craidd ac yn hanfodol i'n Egwyddorion Pobl, Atal ac Amddiffyn, sy'n rhan o'n Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024 – 2029.

7 Ar 31 Mawrth 2025, roedd 87.6% o'n staff yn gallu dangos bod ganddynt sgiliau Cymraeg (Lefel 1 ac uwch), ac roedd 38% ohonynt yn siaradwyr rhugl (sgiliau Lefel 4 a 5). Mae hyn wedi aros yn gyson o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

8 Mae dysgu Cymraeg yn parhau i gael ei hwyluso gan diwtoriaid o Goleg Cambria yn fewnol ac mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gan hwyluso'r broses i staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Ategir hyn gan gymorth dysgu gan Swyddog Iaith Gymraeg, a'r cynnig ar gyfer adnoddau ychwanegol megis defnyddio dulliau dysgu digidol.

9 Cynhaliwyd y digwyddiadau hyrwyddo’r Gymraeg poblogaidd, 'Tanio Sgwrs' eto eleni mewn tair gorsaf dân wahanol er mwyn gwella hygyrchedd i fwy o staff fedru fynychu. Mynychodd cyfanswm o tua 70 o staff y tri digwyddiad, ac hefyd cawson aelodau o’r Awdurdod yn mynychu un digwyddiad hefyd.

10 Derbyniwyd un gŵyn yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r Gymraeg ac mae’r adroddiad yn egluro sut aethom ati i ddiweddaru cyfrifion cymdeithasol er mwyn delio â’r gŵyn.

11 Mae dulliau a ddefnyddir i hyrwyddo'r Gymraeg ac annog dewis iaith i bob aelod o staff a defnyddwyr y gwasanaeth, gan gynnwys y gwahanol ffyrdd y mae'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n fewnol ac yn allanol, yn cael ei nodi yn yr adroddiad.

12 Mae’r cyfleoedd ar gyfer gwella sydd wedi'u osod ar gyfer y flwyddyn nesaf wedi'u nodi ar ddiwedd yr adroddiad. Mae'r rhain yn cynnwys mwy o waith yn hybu staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a gweithio i gynyddu nifer yr archwiliadau Diogel ac Iach sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Lles | |
| Cyllid | Dim un wedi ei adnabod |
| Cyfreithiol | Mae'r ddogfen yn cyflawni dyletswyddau'r Awdurdod o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |
| Staffio | Dim un wedi ei adnabod. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/ Iaith Gymraeg | Ceir goblygiadau i'r Gymraeg yn y ddogfen hon. |
| Risgiau | Dim un wedi ei adnabod. |